

Charles Walker AS
Cadeirydd y Pwyllgor Gweithdrefnau, Tŷ'r Cyffredin

15 Ionawr 2018

Annwyl Charles,

Offerynnau Statudol Cyfunol ac ar y Cyd

Rydym yn aml fel rhan o'n rôl ffurfiol yn craffu ar offerynnau statudol cyfansawdd ac ar y cyd sydd wedi'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â Thŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

Bydd offerynnau statudol o'r fath yn effeithio ar gymunedau ledled Cymru a gallant ymwneud â meysydd pwysig megis yr amgylchedd, iechyd, gofal cymdeithasol a chyflenwad dŵr a gorfodi traffig ar y ffyrdd.

O ran pob offeryn statudol a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, mae gofynion ein Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod os na chaiff offerynnau o'r fath eu gosod yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae Gweinidogion Cymru bob amser yn gosod offerynnau cyfansawdd ac ar y cyd yn Saesneg yn unig, ac felly rydym yn adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y sail honno.

Mewn llythyr i'r pwyllgor a oedd yn rhagflaenydd i ni ym mis Tachwedd 2011, dywedodd y Prif Weinidog fod offerynnau cyfansawdd yn cael eu gosod yn Saesneg yn unig gan na fydd Senedd y DU yn craffu ar offerynnau statudol cyffredinol mewn ieithoedd heblaw'r Saesneg.

Mae enghreifftiau diweddar o offerynnau statudol cyfansawdd yr ydym wedi craffu arnynt ac nad ydynt yn cael eu gwneud yn ddwyieithog, yn cynnwys:



- The NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) (Establishment and Constitution (Amendment) gorchymyn 2017 (SI 2017 No. 959)

Dyweddodd y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Gorchymyn, "fel Gorchymyn Cyfansawdd, ni fydd yr Offeryn yn ddwyieithog ac mae'r Prif Weinidog wedi cadarnhau'r sefyllfa hon yn flaenorol i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol."

- Rheoliadau Tynnu Dŵr (Darpariaethau Trosiannol) 2017 (OS 2017 Rhif. 1047)

Nododd y Memoranda Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r offeryn statudol hwn, gan ei fod yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ac yn destun cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r Senedd, ni ystyrir felly ei fod yn rhesymol ymarferol iddo gael ei wneud yn ddwyieithog.

Rydym hefyd yn ymwybodol o offerynnau statudol cyfansawdd a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU yn Saesneg yn unig ond sydd, serch hynny, yn cynnwys rhywfaint o destun Cymraeg. Er enghraifft, Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (OS 2017 1012) a'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2018 (heb eu gwneud eto).

Yn ogystal, rydym wedi dod yn ymwybodol o offeryn statudol – European Qualifications (Health and Social Care Professions) Regulations 2016 (SI 2016 No. 1030) a wnaed gan Lywodraeth y DU sy'n defnyddio pwerau Harri VIII i ddiwygio Deddf ddwyieithog y Cynulliad ac o ganlyniad mae llawer o dudalennau o destun Cymraeg.

Mae rhai o'r offerynnau hyn felly'n enghreifftiau o Senedd y DU yn craffu ar offerynnau statudol sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg.



O dan yr amgylchiadau, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a oes unrhyw rwystrau i offerynnau statudol dwyieithog cyfansawdd neu ar y cyd yn cael eu gosod yn Nhŷ'r Cyffredin.

Mae hyn wrth gwrs yn bwysig yng nghyd-destun y DU yn ymadael â'r UE a chraffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU sy'n codi o'r Bil UE (Ymadael), boed yn gweithredu'n annibynnol mewn meysydd datganoledig o dan bwerau Cymal 7 neu ar y cyd â Gweinidogion Cymru mewn meysydd datganoledig o dan bwerau Atodlen 2.

Yr wyf yn anfon llythyrau tebyg at Gadeiryddion y Pwyllgor Offerynnau Statudol (Tŷ'r Cyffredin), Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth (Tŷ'r Arglwyddi) a'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir



Mick Antoniw

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

